Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Lodge**

**Rhydaman**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

6/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â The Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Amman Care Services Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### Crynodeb

Mae The Lodge yn gartref hapus. Mae'r gweithwyr gofal yn frwdfrydig, yn trin y bobl ag urddas a pharch, ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan aelodau uwch o'r staff. Mae pob gweithiwr yn mynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl ac yn dweud ei fod yn ei helpu i gefnogi'r bobl fel y dymunant gael eu cefnogi. Gwneir atgyfeiriadau prydlon i weithwyr gofal iechyd proffesiynol lle bo angen, ac mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau ei fod ar gael yn rheolaidd i'r bobl yn y cartref a'r tîm staff sefydledig.

Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser, boed hynny yn eu hystafelloedd eu hunain neu gydag eraill mewn gwahanol ardaloedd cymunol. Yn ystod y pandemig COVID-19 diweddar, cadwodd y bobl mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu pan nad oeddent yn gallu ymweld trwy alwadau fideo ar-lein. Mae'r bobl yn hapus ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y cartref.

## Llesiant

Mae'r gweithwyr gofal yn gwrando ar farn y bobl ynglŷn â'u gofal a'u cymorth ac maent yn amlwg yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob person. Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys gwybodaeth am eu hoffterau fel unigolion, y teulu a'r ffrindiau sy'n bwysig iddynt, ynghyd â chiplun o'u bywyd. Gwahoddir pob person i gymryd rhan wrth adolygu ei gynllun gofal fel y dymuna, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol.

Mae'r rheolwr yn rhoi copi o'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth i'r bobl pan fyddant yn cyrraedd: mae hwn yn darparu manylion ar gyfer y broses gwynion pe bai angen iddynt ei defnyddio. Dywed y bobl y byddent yn codi unrhyw beth y maent am ei drafod gyda'r rheolwr a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'n gwrando arnynt pe baent yn gwneud hynny. Amneidiodd un person a dywedodd, *"Byddwn i'n siarad â'r staff."*

Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut y maent yn treulio'u hamser. Gall pob person gymryd rhan yn rheolaidd mewn amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol/hamdden. Dangosodd dau o bobl eu halbymau lluniau i ni, a oedd yn dystiolaeth o nifer o bartïon a digwyddiadau cymdeithasol. Dywedodd un person, *"Rydyn ni'n mynd i fowlio ac yn gwylio ffilmiau ac yn cael prydau bwyd allan."* Golyga hyn fod y bobl yn gwneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae bwydlen amrywiol ar gael, ac mae'r bobl yn dweud eu bod yn hoffi'r bwyd sydd yn cael ei gynnig bob dydd ac yn dweud bod dewisiadau eraill bob amser ar gael os ydyn nhw'n newid eu meddwl. Dywedodd un person, *"Ydy, mae'r bwyd yn dda."*

Mae'r cartref yn darparu Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg: mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i'r bobl orfod gofyn amdano – mae yna bobl yn y cartref sy'n siarad Cymraeg ac mae hanner y tîm staff yn siarad Cymraeg. Gwelsom ddau o bobl yn sgwrsio yn Gymraeg. Dywedodd y rheolwr wrthym hefyd fod yr holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn ystyried ystod o wybodaeth i sicrhau y gall ddiwallu anghenion y bobl cyn eu derbyn i'r cartref. Mae hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol, fel gweithwyr cymdeithasol, a lleoliadau blaenorol. Drwy wneud hyn, mae aelodau uwch o'r staff wedi datblygu cofnodion gofal sy'n disgrifio gofynion cymorth y bobl, gan gynnwys asesiadau risg clir i gynnal annibyniaeth y bobl cymaint â phosibl. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl, gyda'r holl ddogfennau asesu a chymorth perthnasol yn eu lle. Mae cyfathrebu da yn y tîm ac mae aelodau uwch o'r staff yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae'r darparwr yn cyflogi nyrs anabledd dysgu ar gyfer cymorth ac arbenigedd ychwanegol ynghylch anghenion gofal iechyd y bobl. Buom yn trafod sut mae ei rôl o fudd i'r bobl yn y cartref. Rhoddodd enghraifft lle mae pob person bellach yn cael archwiliad gofal iechyd blynyddol, rhywbeth nad oedd yn digwydd yn flaenorol.

Gan fod cyfyngiadau wedi bod ar weithgareddau ac ymweliadau yn ystod pandemig COVID-19, mae'r gweithwyr gofal wedi addasu eu cymorth i fodloni canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda llawer o weithgareddau dan do ac unigol wedi'u trefnu gydol y cyfnod. Mae'r cartref yn fawr, gydag ardaloedd eang i'w defnyddio, rhywbeth y gwnaeth pobl fanteisio'n llawn arno trwy gydol y pandemig.

Cyn belled ag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi bod trwy broses recriwtio drylwyr y darparwr. Gall pob gweithiwr gael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau i ddeall ei gyfrifoldeb i amddiffyn pobl agored i niwed. Maent yn derbyn diweddariadau rheolaidd o ran hyfforddiant diogelu ac yn dweud wrthym fod aelodau uwch o'r staff yn eu cefnogi'n dda a'u bod bob amser ar gael i roi cyngor os oes angen.

Mae gan y cartref bolisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ym mhob rhan o'r cartref a gall gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau pryd bynnag y bo angen. Mae'r holl fesurau'n cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag heintiau COVID-19, gan gynnwys monitro a phrofi pob ymwelydd â'r cartref a defnydd rheolaidd o gyfarpar diogelu personol gan yr holl weithwyr gofal.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae The Lodge yn adeilad mawr. Mae’n gynnes ac yn lân, ac mae’r bobl yn dweud eu bod yn teimlo’n gyfforddus ac yn hapus. Mae digon o le ym mhob ystafell gwely ac maent wedi’u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau’r preswylydd, gyda thrugareddau addurniadol, ffabrigau, lluniau, ac eitemau o ddodrefn. Mae cyfleusterau a chyfarpar yn hyrwyddo annibyniaeth pob person gymaint â phosibl: mae’r coridorau ym mhob rhan o’r adeilad yn helpu’r bobl â symudedd cyfyngedig ac yn cynnwys yr offer y mae’r bobl yn eu defnyddio’n rheolaidd, megis cadeiriau olwyn. Mae’r addurniadau yn olau ac yn adfywiol drwyddo draw. Yn allanol, mae gardd fawr i’r bobl gymdeithasu ynddi â theuluoedd a ffrindiau.

Mae’r amgylchedd yn ddiogel. Nid oes rhwystrau i’r allanfeydd tân. Mae’r holl ddeunyddiau a reoleiddir gan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 yn cael eu storio’n gywir, yn unol â’r rheoliadau hyn. Mae cyfarwyddiadau clir yn cael eu harddangos yn y cartref yn nodi’r hyn i’w wneud os bydd tân.

Mae’r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr anawdurdodedig yn dod i mewn i’r adeilad, gan fod pob ymwelydd yn canu cloch y drws ffrynt cyn gallu mynd i mewn. Mae cofnodion gofal, cofnodion personél gweithwyr a chofnodion trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn cael eu storio’n ddiogel mewn swyddfa sydd wedi ei chloi ac maent ond ar gael i weithwyr gofal sydd â’r awdurdod i’w gweld.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y tîm uwch-reolwyr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac yn parchu'r bobl sy'n derbyn cymorth. Mae sawl ffordd o gael adborth am y gwasanaeth y mae'r bobl yn ei dderbyn:

- Gall y bobl a'u perthnasau gwblhau arolygon sydd yn gofyn am eu barn ar ansawdd y cymorth
- Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y bobl yn gwybod sut i wneud cwyn
- Ceir cyswllt rheolaidd ag aelodau'r teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal
- Gall y gweithwyr drafod unrhyw faterion y maent am eu codi mewn cyfarfodydd goruchwylio cyfrinachol bob tri mis
- Mae'r unigolyn cyfrifol yn cofnodi ansawdd y gwasanaeth a gynigir i'r bobl mewn adroddiadau ymweliadau manwl bob tri mis ac adroddiadau ansawdd gofal bob chwe mis.

Cyn belled ag y bo modd, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i amddiffyn y bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r tîm staff yn sicrhau eu bod yn diogelu'r holl wybodaeth breifat a phersonol. Mae'r polisi diogelu a'r weithdrefn ddiogelu yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae uwch-aelodau o staff yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofal yn nodi'n glir unrhyw risgiau i lesiant y bobl, ac mae cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio os bydd angen gwneud hynny. Byddent yn mynd at y rheolwr neu'r unigolyn cyfrifol, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, megis y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent yn credu bod angen iddynt wneud hynny.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gweithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Mae gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rhaglen sefydlu i staff yn cysylltu â chanlyniadau dysgu unigol. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Ceir cyfraddau cadw staff da. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn y cartref yn dda.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o’r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, rydym yn amlygu’r rhain fel Meysydd i’w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi